CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

Winter Maintenance Plan
Cyfeiriadur Cynhaliaeth Gaeaf
2011/12

TECHNICAL SERVICES DEPARTMENT

ADRAN GWASANAETHAU TECHNEGOL

D. Hughes
Head of Street Scene
Pennaeth Gwasanaethau Stryd

Y CYNNWYS

Rhan 1. Strategaeth a Pholisi Cynnal Ffyrdd yn ystod y Gaeaf

1. Datganiad Polisi
2. Y Sefydliad
3. Rhagolygon y Tywydd a System Proffwydo Iâ
4. Y Trefniadau Gweithredu

Rhan 2. Cyfeiriadur Ffôn

Rhan 3. Atodiadau

1. Map o Ranbarth Caerfyrddin
2. Cyfnodau Cynnal Ffyrdd yn ystod y Gaeaf
3. System Dangos Cyflwr y Ffyrdd
4. Llifsiart
5. Llwybrau Gwasgaru Halen Rhanbarth y Gorllewin
6. Llwybrau Gwasgaru Halen Rhanbarth y Dwyrain

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

ADRAN Y GWASANAETHAU TECHNEGOL

POLISI A THREFNIADAETH CYNNAL FFYRDD YN YSTOD Y GAEAF

1. DATGANIAD POLISI

Nod y Cyngor Sir yw darparu gwasanaeth Cynnal Ffyrdd yn ystod y Gaeaf a fydd, gymaint ag sy'n bosibl, yn caniatáu i draffig cerbydau deithio'n ddiogel ar hyd rhannau strategol bwysig o'r rhwydwaith priffyrdd gan sicrhau y ceir cyn lleied â phosibl o oedi a damweiniau oherwydd tywydd gwael.

2. Y SEFYDLIAD

2.1 Y Berthynas rhwng y Cleient a'r Contractwr

O dan Strwythur Trefniadaethol y Cyngor Sir cyfunwyd yr holl swyddogaethau gweithredol a'r swyddogaethau o ran cleientiaid i lunio Is-adran Gwasanaethau Stryd sy'n rhan o Adran y Gwasanaethau Technegol. Mae'r Is-adran yn nodi'r gofynion ac yn darparu'r ymateb gweithredol. Mae'r dyletswyddau gweithredol wedi eu cofnodi yn Llawlyfr Ansawdd yr Adran.

2.2 Strwythur Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Caerfyrddin

Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol, mae'r Sir wedi ei rhannu'n ddau Ranbarth. Mae gan y naill ranbarth a'r llall Reolwr Rhanbarthol yn eu rheoli, ac mae swyddfeydd y rhain yng Nghaerfyrddin, Glanaman a Llanelli. Pennaeth y Gwasanaethau Stryd sy'n gyfrifol am waith Cynnal Ffyrdd Sirol yn ystod y Gaeaf.

2.3 Strwythur Cefnffyrdd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am Gynnal Traffyrdd a Chefnffyrdd yng Nghymru, ac mae tri Chyngor Sir yn gweithredu fel asiantaethau drosto:-

SWTRA – Yr Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
MWTRA – Yr Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru
NWTRA – Yr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru

Crynodeb o ddarnau Cefnffyrdd yn Sir Gaerfyrddin (km lôn)

FFORDD	DARN	Yn gwneud y Penderfyniad	Darparydd Gweithredol	Asiant	
				MWTRA	SWTRA
A40	Pontwen i gyffordd yr A483 yn Llanymddyfri	CS Powys	CS Powys	8,940	
	Cyffordd yr A483 yn Llanymddyfri i Abergwili	CS Caerfyrddin	CS Caerfyrddin	40,431	
	Abergwili i'r Bont Ddu	SWTRA	CS Caerfyrddin		46,035
A48	Pontabraham i Gaerfyrddin	SWTRA	CS Caerfyrddin		48,858
A477	Sanclêr i Gastell Heli	SWTRA	CS Caerfyrddin		11,048
A483,	Pont Abraham i Landeilo	SWTRA	CS Caerfyrddin		21,345
	Llanymddyfri i Ddinas-y-bwlch	CS Caerfyrddin	CS Caerfyrddin	13,057	
	Cyfanswm			62,428	127,286

Darparydd y Gwasanaethau sy'n Gwneud Penderfyniadau sy'n berthnasol i'r llwybrau fydd yn gyfrifol am gael gwybodaeth ynghylch y tywydd a chyflwr y ffordd ac am wneud penderfyniadau ynghylch y driniaeth sydd ei hangen ar hyd y llwybrau y maent yn gyfrifol amdanynt. Wedi pennu'r camau gweithredu sydd i'w cymryd a'u cyfleu i Ddarparydd y Gwasanaethau Gweithredol ei gyfrifoldeb ef fydd sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei basio ymlaen ar hyd y gadwyn i'r gweithredwyr fel y gellir ymgymryd â'r driniaeth gywir.

Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn adolygu'r adain honno o'r Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd sy'n ymwneud â Chynnal dros y Gaeaf a bydd newidiadau yn cael eu gweithredu fel daw'r cyfarwyddiadau i law.

3. RHAGOLYGON Y TYWYDD A SYSTEM PROFFWYDO IÂ

3.1 Cyfnodau'r Gaeaf

Gellir rhannu'r gwaith o gynnal ffyrdd yn ystod y gaeaf yn dri chyfnod penodol, sef:

CYFNOD YMYLOL - Ni ddisgwylir tywydd mawr.
CYFNOD ISEL - Tywydd mawr yn bosibl.
CYFNOD UCHEL - Gellir yn rhesymol ddisgwyl tywydd mawr.
(Gweler Atodiad Rhif 2)

3.2 Rhagolygon y Tywydd

Rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill, mae'r Cyngor Sir yn tanysgrifio i wasanaeth proffwydo'r tywydd sy'n cael ei ddarparu gan Swyddfa'r Meteogroup, sef cwmni preifat sy'n proffwydo'r tywydd. Darperir rhagolygon 24 awr ganddynt a hynny bob dydd am 2 p.m.; hefyd maent yn diweddaru rhybuddion perygl ar y ffyrdd ac yn cynnig cyfleusterau cysylltu ar ôl oriau swyddfa. Derbynnir y rhagolygon fesul ffordd, ac yna trosglwyddir y wybodaeth i'r Swyddfeydd Rhanbarthol.

Yn ystod pythefnos cyntaf mis Hydref a phythefnos olaf mis Ebrill, mae Swyddfa'r Meteogroup yn cyhoeddi Rhybuddion Perygl ar y Ffyrdd pa bryd bynnag y disgwylir amodau peryglus. Caiff y rhybuddion hyn eu ffacsio i'r Pencadlys yn ystod oriau swyddfa a chânt eu hanfon oddi yno at y Swyddog ar Ddyletswydd ym mhob rhanbarth. Gyda'r hwyr ac yn ystod y penwythnosau, bydd Swyddfa'r Meteogroup yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddog ar Ddyletswydd.

3.3 System Proffwydo Iâ

Hefyd mae'r Adran yn gallu cadw golwg ar y data a gesglir gan orsafoedd tywydd maes sydd wedi eu gosod ar Briffyrdd a Chefnffyrdd yng Nghymru. Mae'r gorsafoedd maes hyn yn rhan o System Monitro'r Tywydd ICELERT ar gyfer Cymru ac mae naw ohonynt yn Rhanbarth Sir Gaerfyrddin yn y mannau canlynol:

a) Yn Synod Inn, ar y Gefnffordd (A487) rhwng Aberteifi ac Aberystwyth.
b) Yn Rhos-goch, ar y Gefnffordd (A477) rhwng Sanclêr a Phenfro.
c) Yn Felin-wen, ar y Gefnffordd (A40) rhwng Caerfyrddin a Llandeilo.
d) Llantwyd, ar y Gefnffordd (A487) rhwng Abergwaun ac Aberteifi.
e) Pumsaint, ar yr A482 rhwng Llanwrda a Llanbedr Pont Steffan.
f) Carmel, ar yr A476 rhwng Cross Hands a Llandeilo.
g) Nant-y-ci, ar y Ffordd Ddeuol (A40) tua'r dwyrain rhwng Caerfyrddin a Sanclêr.
h) Erw Beili ar yr A483 rhwng Llanymddyfri a Llanelwedd

Mae synwyryddion yn y gorsafoedd maes yn storio ac yn trosglwyddo gwybodaeth am dymheredd yr aer a wyneb y ffordd, y pwynt gwlith, cyflymder a chyfeiriad y gwynt a lefel yr halen ar y ffordd. Didolir y wybodaeth gan gyfrifiadur trwy gyswllt modem ar linell ffôn.

Yn ystod Cyfnodau Canolig ac Uchel, mae'r rhagolygon yn cael eu trosglwyddo gan y gwasanaeth rhagolygon i Swyddfa VAISALA yn Birmingham. Mae modd i staff y Sir weld y data hyn drwy ddefnyddio'r meddalwedd ICECAST a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth hwn.

Hefyd mae cyrff proffwydo'r tywydd wedi eu cysylltu â'r System Rhagweld Iâ. Cedwir golwg ar y system bob awr o'r dydd a'r nos a rhybuddir Swyddogion ar Ddyletswydd y Cyngor Sir pan welir bod yr amodau'n troi'n ddifrifol.

3.4 Trefniadau Staffio

Mae dau Swyddog Sir ar Ddyletswydd yn cael eu neilltuo ar gyfer y Sir bob dydd. Gellir ffonio Swyddog y Sir ar Ddyletswydd ar linell argyfwng arbennig drwy system trosglwyddo galwadau awtomatig. Ar ôl oriau swyddfa, Swyddog y Sir ar Ddyletswydd sy'n gyfrifol am benderfynu pa gamau fyddai'n briodol i'w cymryd ar holl Ffyrdd y Sir a Chefnffyrdd neilltuol. Gall y cyhoedd gysylltu â llinell ffôn argyfwng (sydd yn cael ei hysbysebu) i gael gwybodaeth am ffyrdd ym mhob rhan o'r sir gydol y gaeaf.

Mae hysbyseb tudalen lawn yng Nghyfeiriadur Ffôn BT yn dangos y Rhif Ffôn i'r Cyhoedd mewn Argyfwng, o dan Linell Gofal pob adran. Y rhif yw (01558) 824283. Mae staff y Cyngor Sir yn hysbysu'r Swyddog ar Ddyletswydd am unrhyw argyfyngau.

4. TREFNIADAU GWEITHREDU

4.1 Y Drefn

Cyfrifoldeb Pennaeth y Gwasanaethau Stryd yw cyfeiriad cyffredinol y Gwaith Cynnal Ffyrdd yn ystod y Gaeaf; mae ei swyddfa wedi ei lleoli ym Mhencadlys yr Is-adran ym Pibwrlwyd. (Cyfeirier at y Cyfarwyddiadur Ffôn)

Bydd manylion y gwaith graeanu y bwriedir ei wneud ar ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn cael eu dosbarthu o'r Ystafell Reoli ym Pibwrlwyd, i'r Rheolwyr Rhanbarthol. Bydd manylion y gwaith graeanu y bwriedir ei wneud ym mhob Rhanbarth yn cael eu ffacsio i'r Ystafell Reoli cyn 15.00 awr bob dydd. Yna caiff 'Taflen Gwaith Graeanu' ei llenwi a'i ffacsio i Swyddfa'r Met., y Gwasanaethau Brys, a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae manyleb wedi ei llunio sydd yn disgrifio gweithdrefnau a threfniadau goruchwylio'r Gwaith Cynnal yn ystod y Gaeaf, ac mae ar gael ar ffurf dogfen ar wahân.

Dyma'r lefelau gweithredu:- -

A. **Gweithwyr yn disgwyl yn eu cartrefi** am alwad i fynd allan. (Lefel 1).

B. **Gweithwyr yn barod yn y storfannau** yn aros am gyfarwyddiadau (Lefel 2).

C. **Patrôl** - bydd gyrwyr yn mynd â'u lorïau graeanu allan i roi halen ar ffyrdd penodol yn ôl yr angen e.e. lle mae iâ ar y ffordd (Lefel 3).

D. **Bydd gyrwyr yn mynd â'u lorïau graeanu allan i ragwasgaru halen** gan wasgaru swm penodedig o halen ar y ffyrdd rhestredig yn eu hyd (Lefel 4).

E. Gwasgaru halen ar y ffyrdd i **ddygymod ag eira**, a lle bo angen, cyfuno hynny ag erydr eira (Lefel 5).

Ceir llifsiart sy'n dangos y broses o wneud penderfyniadau a gweithredu yn atodiad 4.

Pan fydd cyfnod o argyfwng eang, agorir Ystafell Reoli Ganolog ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin a rhoddir Cynllun Argyfwng y Cyngor Sir ar waith.

4.2. YMATEB Y GWASANAETH

Mae'r Gwasanaeth Cynnal y Ffyrdd yn ystod y Gaeaf yn dibynnu ar wasgaru halen yn effeithiol o gerbydau pwrpasol. Mae halen neu raean neu gyfuniad o'r ddau yn lleihau effeithiau iâ ac eira cywasgedig. Gwaredir eira rhydd naill ai trwy ei droi gan erydr neu drwy ei lwytho. 934 milltir sgwâr yw arwynebedd Sir Gaerfyrddin ac mae ei rhwydwaith o ffyrdd yn cynnwys Traffyrdd, Cefnffyrdd, Ffyrdd Sirol, Priffyrdd, Ffyrdd heblaw am Brif Ffyrdd a Ffyrdd Di-ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith yn wledig ond mae'r rhwydwaith trefol yn helaeth hefyd. Gweler isod hyd yr elfennau gwahanol o'r rhwydwaith: -

	Hyd mewn km		
Trafforddd (M.4)	5		
Cefnffyrdd	188		
Prif Ffyrdd (Dosbarth 1)	256		
Ffyrdd heblaw am Brif Ffyrdd (Dosbarth 2 & 3)	1600		
Di-ddosbarth	1488	Trefol	Gwledig
Cyfanswm:	3531km	650 km	2881 km

Rhagwasgaru Halen ar Ffyrdd

Y flaenoriaeth bennaf yw gwasgaru halen ar gefnffyrdd a ffyrdd pwysig eraill, yna prif ffyrdd, ffyrdd sy'n arwain at sefydliadau diwydiannol a milwrol pwysig, ysbytai, gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd rheilffyrdd rhwng dinasoedd, garejis bysiau, llwybrau bysiau pwysig, llwybrau 'teithio i'r gwaith' pwysig, slipffyrdd a mannau y gwyddys eu bod yn beryglus. Mae halen yn cael ei ragwasgaru ar 996 o gilometrau o briffyrdd yn y Sir, sef 30% o Rwydwaith y Sir. (Gweler Atodiadau 5, 6.)

Y flaenoriaeth nesaf yw gwasgaru halen mewn mannau y gwyddys eu bod yn beryglus a mannau lle ceir damweiniau mynych (nad ydynt ar y rhestr flaenoriaeth gyntaf), llwybrau bysiau eraill (gan gynnwys bysiau ysgol), llwybrau 'teithio i'r gwaith' pwysig eraill, ffyrdd bwydo pwysig a strydoedd siopa.

Lleihau'r Gwasanaeth a Ddarperir

Ar gyfarwyddyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Technegol mae'r Polisi a'r Cynllun Cynnal a Chadw dros y Gaeaf yn rhoi i'r Swyddogion ar Ddyletswydd yr hyblygrwydd i leihau'r gwasanaeth a ddarperir ac i dynnu'n ôl rai agweddau ar y gwasanaeth ar yr adegau hynny pan fo'r cyflenwadau halen yn prinhau ac yn cyrraedd lefel ddifrifol a phan fo rhagolygon y tywydd yn rhagweld rhagor o dywydd oer.

Gwasgaru Halen ar Lwybrau Troed

Pan fo angen gwasgaru halen ar lwybrau troed, rhoddir blaenoriaeth i brif fannau siopa, yna ardaloedd trefol prysur gan gynnwys llwybrau troed sy'n arwain at sefydliadau diwydiannol hanfodol, ysbytai, llwybrau bysiau trefol pwysig ac ysgolion, a mannau y gwyddys eu bod yn beryglus megis llwybrau llethrog.

4.3 CLIRIO EIRA

Clirio eira oddi ar ffyrdd
Y flaenoriaeth bennaf yw clirio cefnffyrdd, ffyrdd pwysig eraill a phrif ffyrdd, yna heolydd sy'n arwain at sefydliadau diwydiannol a milwrol hanfodol, ysbytai, gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd rheilffyrdd rhwng dinasoedd a garejis bysiau, rhai llwybrau bysiau, llwybrau 'teithio i'r gwaith' pwysig, priffyrdd sy'n gwasanaethu canolfannau siopa, slipffyrdd, ffyrdd mynediad i bentrefi, cymunedau cefn gwlad, ysgolion a ffermydd, ac yn olaf ffyrdd i dai preswyl.

Clirio eira oddi ar lwybrau troed
Pan fo hynny'n briodol, rhoddir blaenoriaeth i brif fannau siopa, yna i ardaloedd trefol prysur gan gynnwys llwybrau troed yn arwain at sefydliadau diwydiannol hanfodol, ysbytai, llwybrau bysiau trefol pwysig ac ysgolion, ynghyd â mannau y gwyddys eu bod yn beryglus megis llwybrau llethrog.

4.4 ADNODDAU

TABL 1. Y Cyfarpar/Cerbydau a Ddefnyddir

Cyfarpar / cerbydau	**IS-ADRAN** Y GORLLEWIN	**IS-ADRAN** Y DWYRAIN
Erydr troelli (Chwythwyr eira)	1	1
Erydr syth	14	8
Graeanwyr pwrpasol	2	2
Graeanwyr y gellir eu datgymalu	6	5
Cerbydau graeanu undarn	8	5

TABL 2. Y Gweithwyr a Ddefnyddir

Galwedigaeth	**IS-ADRAN** Y GORLLEWIN	**IS-ADRAN** Y DWYRAIN
Gyrwyr (â chymhwyster CGC)	41	38
Ar ol oriau swyddfa	41	38
Mecanyddion	3	5

TABL 3. Cyflenwad Halen

Ardal	**Storfan**	**Dull Storio**	
		Mewn sguboriau (Tunelli)	Yn yr awyr agored (Tunelli)
2	Caerfyrddin	2500	3300
	Cross Hands	3000	2140
	Pencader		1000
4	Llanymddyfri	4500	
	Cyfanswm	10000	6440

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

ADRAN Y GWASANAETHAU TECHNEGOL
RHIFAU FFÔN

Y GWASANAETHAU STRYD (YSTAFELL REOLI Y PENCADLYS)

ORIAU SWYDDFA	**(Ystafell Reoli - Gwaith Cynnal yn ystod y Gaeaf)**	**01267 224538**
	(Rhif ffacs - Gwaith Cynnal yn ystod y Gaeaf)	**01267 221406**

RHANBARTH Y GORLLEWIN (CANOLFAN CILLEFWR)

ORIAU SWYDDFA	**01267 224800**
RHIF FFACS Y SWYDDFA	**01267 225870**
AR ÔL ORIAU SWYDDFA (Swyddog ar Ddyletswydd - Ffyrdd y Sir – Rhanb. y Gorll.)	**01267 238308**

RHANBARTH Y DWYRAIN (CANOLFAN GLANAMAN)

ORIAU SWYDDFA

Glanaman	**01269 825385**
Llanelli	**01554 742149**
Llanymddyfri	**01550 721985**

RHIF FFACS Y SWYDDFA

Glanaman	**01269 826719**
Llanelli (Trostre)	**01554 775249**
Llandovery	**01550 721782**
AR ÔL ORIAU SWYDDFA (Swyddog ar Ddyletswydd – Ffyrdd y Sir – Rhanb. y Dwyr.)	**01558 824279**

RHIF FFÔN I'R CYHOEDD MEWN ARGYFWNG.

LLINELL GOFAL (Ar Ôl Oriau Swyddfa)	**01558 824283**
CANOLFAN ALWADAU (Dydd)	**0845 658 0445**

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
ADRAN Y GWASANAETHAU TECHNEGOL

GWAITH CYNNAL YN YSTOD Y GAEAF
CYNLLUN A CHYFEIRIADUR

Adolygwyd y ddogfen hon a'i chymeradwyo gan

Llofnod H. A. Evans Dyddiad 2/11/11

Rheolwr y Rhwydwaith
Adran y Gwasanaethau Technegol
Pibwrlwyd,
Caerfyrddin,
SA31 2NH.

Llofnod D. A. Hughes Dyddiad 2-11-11.

Pennaeth y Gwasanaethau Stryd
Adran y Gwasanaethau Technegol
Pibwrlwyd,
Caerfyrddin,
SA31 2NH.

Llofnod Dyddiad 2.11.11

Cynghorydd Sir, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Technegol
Adran y Gwasanaethau Technegol
Neuadd y Sir
Caerfyrddin,
SA31 1JP.

Llofnod Dyddiad 3 Nov 2011

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Technegol
Adran y Gwasanaethau Technegol
Neuadd y Sir
Caerfyrddin,
SA31 1JP.